Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Penysarn
# Penysarn
# Ynys Môn
# LL69 9AZ

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Penysarn

Lleolir Ysgol Gynradd Penysarn rhyw ddwy filltir o Amlwch ar Ynys Môn. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 98 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 8 oed meithrin rhan-amser. Fe'u rhennir yn 4 dosbarth oedran cymysg.

Tua 13% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r canran cenedlaethol (19%). Mae tua hanner y disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 22% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ond ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Ionawr 2017. Nid oedd ef yn yr ysgol yn ystod yr arolygiad. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ionawr 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith ac yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi. Ar y cyfan, mae athrawon yn darparu gweithgareddau dysgu diddorol, sy'n cymell disgyblion i fwynhau dysgu. Mae'r Gymraeg yn ganolog i fywyd a gwaith yr ysgol, â phwyslais amlwg ar sicrhau bod gan ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o hanes a diwylliant yr ardal leol. Fodd bynnag, mae anghysondeb yn ansawdd yr addysgu ac mae gwendidau yn ansawdd y cynllunio yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r pennaeth wedi rhannu gweledigaeth glir a phwrpasol ar gyfer datblygu'r ysgol gyda'r staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni. Mae wedi rhoi nifer o strategaethau cadarn ar waith ond mae diffygion mewn agweddau ar arweinyddiaeth yr ysgol sydd angen gwelliant.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Cryfhau rôl y tîm rheoli er mwyn monitro'n fwy effeithiol a mynd i'r afael â'r gwendidau yn yr addysgu a'r ddarpariaeth

A2 Sicrhau bod her y gweithgareddau dysgu yn galluogi disgyblion cyfnod allweddol 2 o bob gallu i wneud cynnydd llawn

A3 Gwella ansawdd y cynllunio yng nghyfnod allweddol 2 er mwyn sicrhau mwy o gyfleoedd i ddisgyblion atgyfnerthu eu medrau ysgrifennu estenedig a rhifedd mewn pynciau eraill

A4 Gwella medrau TGCh disgyblion, yn enwedig medrau trin data a modelu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol â medrau llythrennedd a rhifedd tebyg i'r rheini a ddisgwylir ar gyfer eu hoed, heblaw yn y Gymraeg lle mae'r iaith yn newydd i tua hanner ohonynt. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy galluog bob amser yn cyflawni cystal ag y gallent.

O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae medrau llafar llawer o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn cyfathrebu'n glir ac yn hyderus yn y Gymraeg, gan ddefnyddio amrywiaeth o eirfa sy'n briodol ar gyfer eu hoed, er enghraifft wrth drafod ymweliad â Melin Llynnon. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir yn y ddwy iaith ac maent yn awyddus i gynnig atebion a sylwadau, a mynegi barn wrth siarad am eu gwaith. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall, er enghraifft wrth gywain gwybodaeth am yr ardal leol o'r rhyngrwyd.

Mae medrau darllen y disgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn hyderus ac yn adeiladu geiriau anghyfarwydd yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion mwy galluog yn darllen gyda mynegiant ac yn lleisio barnau aeddfed ynglŷn â storïau a chymeriadau. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn gywir a hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn mynegi barnau am lyfrau ac yn disgrifio'r prif gymeriadau a rhediad y digwyddiadau o fewn straeon yn ystyrlon. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn cymhwyso eu medrau darllen yn effeithiol i gefnogi eu gwaith mewn pynciau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gywain gwybodaeth am hanes Ysgol Llaneilian.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer yn ysgrifennu'n annibynnol gan atalnodi'n gywir a defnyddio ansoddeiriau a chymariaethau'n effeithiol i gyfoethogi'r gwaith. Maent yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu yn effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu stori am Parri'r Pobydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gallu i ysgrifennu mewn ffurfiau amrywiol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn dangos ymwybyddiaeth dda o atalnodi, paragraffu a hanfodion iaith ac yn defnyddio geiriau cyfoethog ac ymestynnol i greu effaith, er enghraifft wrth ysgrifennu portread o'r awdur Roald Dahl. Fodd bynnag, dim ond ychydig ohonynt sy'n ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn datblygu eu medrau rhif yn gadarn i safon sy'n briodol i'w hoed. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, maent yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth yn fedrus, er enghraifft i gasglu a chofnodi data am anifeiliaid ar fferm leol. Mae gan ran fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o ddulliau i

gyfrifo yn y pen ac ar bapur.  Maent yn gwneud defnydd da o ddata, gyda'r mwyafrif yn cynhyrchu graffiau priodol yn annibynnol wrth fesur tymheredd dros gyfnod.  Fodd bynnag, nid ydynt yn trosglwyddo eu medrau rhif yn ddigon rheolaidd mewn meysydd eraill ar draws y cwricwlwm.

Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol mewn meysydd dysgu ac ar draws y cwricwlwm.  Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio pecynnau TGCh i wneud cyflwyniadau addas o'u gwaith. Er enghraifft, mae disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau'n addas, er enghraifft wrth gyfuno llun a thestun i greu llyfryn.  Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio pecynnau cyflwyno addas er mwyn gwneud cyflwyniad o'u gwaith ar effaith yr Ail Ryfel Byd ar fywydau pobl. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel ac effeithiol wrth chwilio am wybodaeth am Ynys Môn.  Fodd bynnag, ychydig iawn sy'n datblygu dealltwriaeth dda o sut i drin data neu greu taenlenni i fodelu sefyllfaoedd byd go iawn.

**Lles ac agweddau at ddysgu:  Da**

Mae bron pob disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol.  Mae'r rhan fwyaf yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o'r effaith mae hyn yn ei chael ar y corff.  Mae'r disgyblion yn teimlo'n gwbl ddiogel yn yr ysgol ac yn hapus i drafod problemau gydag aelodau staff, gan fod yn hyderus eu bod yn gwrando arnynt.  Mae rhan fwyaf y disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel pan fyddant yn defnyddio'r rhyngrwyd.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda ac maent yn gwrtais a chroesawgar tuag at ymwelwyr.  Mae'r disgyblion yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn cymryd eu cyfrifoldebau fel arweinwyr gemau buarth o ddifrif.  Mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd rhan fwyaf y disgyblion yn dda.  Maent yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith, yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig.  Fodd bynnag, dechrau datblygu mae medrau disgyblion i wella ac arwain eu dysgu eu hunain.

Mae llais y disgybl yn bwysig yn yr ysgol ac yn cael lle amlwg drwy fentrau amrywiol, er enghraifft wrth i'r cyngor ysgol drefnu gweithgareddau codi arian at nifer o elusennau.  Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill. Mae disgyblion yn cyfrannu'n helaeth yn y gymuned ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn digwyddiadau cymdeithasol yn lleol, er enghraifft drwy gyfrannu at wasanaeth diolchgarwch.

Dros gyfnod o bedair blynedd, mae'r canran presenoldeb wedi cynyddu'n raddol ac mae nifer yr absenoldebau cyson wedi gostwng yn sylweddol.  Mae hyn yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg dros y 2 flynedd diwethaf.

**Addysgu a phrofiadau dysgu:  Digonol ac angen gwella**

Yn gyffedinol, mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth gyfoethog o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb a chwilfrydedd rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus.  Mae'r iaith Gymraeg yn ganolog i fywyd a gwaith yr ysgol, ac yn cael ei magu'n llwyddiannus. Mae'r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafar.  Mae'r athrawon yn darparu ystod gyfoethog o

brofiadau gwerthfawr er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o hanes a chwedlau lleol ac o waith artistiaid lleol fel Kyffin Williams. Darperir ystod o ymweliadau amrywiol â mannau diddorol o fewn yr ardal, er enghraifft Melin Llynnon a Mynydd Parys. Mae hyn yn ennyn diddordeb a brwdfrydedd disgyblion tuag at yr iaith ac yn datblygu eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o'u hetifeddiaeth a diwylliant Cymru yn effeithiol iawn.

Mae athrawon y cyfnod sylfaen yn cyd-gynllunio gweithgareddau ysgogol i hyrwyddo'r dysgu y tu fewn a thu allan i'r dosbarth. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol a hyderus. Ar y cyfan, mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn darparu gweithgareddau dysgu diddorol, sy'n cymell disgyblion i fwynhau dysgu. Fodd bynnag, nid oes gan yr athrawon hyn drosolwg ddigon clir o'r hyn a ddysgir ar draws y cyfnod. O ganlyniad, nid yw'r gweithgareddau bob amser yn adeiladu ar fedrau'r disgyblion yn effeithiol nac yn darparu digon o her i ymateb i anghenion disgyblion mwy galluog.

Mae ansawdd yr addysgu yn ddigonol ac angen gwella. Mae athrawon yn meithrin a chynnal perthynas waith dda rhyngddynt â'r disgyblion, ac yn creu awyrgylch dysgu cynhaliol yn y gwersi. Mae cymorthyddion yn cyfrannu'n effeithiol at ansawdd yr addysgu ac yn cynnig cymorth da yn ôl anghenion disgyblion er mwyn iddynt gwblhau eu tasgau'n llwyddiannus. Lle mae'r addysgu yn fwyaf effeithiol, mewn tua hanner y dosbarthiadau, mae cyflwyniadau'r athrawon yn ennyn diddordeb y disgyblion yn dda. Mae athrawon yn holi'n fedrus, sy'n galluogi'r disgyblion i ymhelaethu ac esbonio eu hatebion yn synhwyrol. Mae athrawon yn paratoi tasgau ysgogol sy'n ymateb i anghenion yr holl ddisgyblion. Lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 2, nid yw disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel gan nad yw'r gweithgareddau dysgu yn herio pob disgybl i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Nid oes cyflymder addas yn y gwersi hyn.

Mae'r athrawon ar draws yr ysgol yn darparu gweithgareddau cadarn i ddatblygu medrau iaith a rhif y disgyblion mewn gwersi Cymraeg, Saesneg a mathemateg. Mae athrawon y cyfnod sylfaen yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol ar draws y meysydd dysgu. Fodd bynnag, nid yw athrawon cyfnod allweddol 2 yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion atgyfnerthu a datblygu eu medrau ysgrifennu estenedig a rhifedd yn ddigon effeithiol mewn pynciau eraill. Nid yw'r cynllunio i ddatblygu holl fedrau TGCh y ddisgyblion ar draws y cwricwlwm yn ddigon cynhwysfawr.

Mae'r athrawon yn cynnig adborth gwerthfawr i'r disgyblion yn ystod gwersi ar sut i wella eu gwaith. Er hyn, nid yw arferion gorau asesu ar gyfer dysgu'n cael eu gweithredu'n ddigon cyson ar draws yr ysgol. Anghyson yw'r cyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 fyfyrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol, ddiogel a hapus. Rhoddir pwyslais ar gydnabod a pharchu amrywiaeth unigolion a chaiff pob disgybl hawl gyfartal. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda. Mae'r sesiynau cydaddoli yn cefnogi datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn effeithiol a rhoddir cyfleoedd priodol iddynt fyfyrio ar faterion perthnasol. Mae cyfraniad aelod o'r corff llywodraethol trwy weithgareddau Agor y Llyfr yn cryfhau'r

ddarpariaeth yn llwyddiannus. Golyga hyn fod y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at eraill. Fe amlygir hyn yn glir yn y ffordd mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymdrin â'i gilydd.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion yn llwyddiannus ac mae ganddi drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae athrawon yn hyrwyddo manteision byw yn iach a hybu iechyd corfforol disgyblion yn effeithiol ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth i ddisgyblion y cyfnod sylfaen ymweld â fferm ac arfarchnad leol. Mae hyn, ynghyd â gwaith disgyblion cyfnod allweddol 2 yn yr ardd lysiau, yn helaethu eu gwybodaeth o daith bwyd o'r fferm i'r fforc. Mae'r athrawon yn hybu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd ymarfer corff yn effeithiol gan ddarparu amrywiaeth o weithgareddau i gynyddu eu lefelau iechyd a ffitrwydd.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau asesu addas ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion ar eu taith trwy'r ysgol. Mae athrawon yn gwneud defnydd da o'r wybodaeth i ddarparu cefnogaeth i ddisgyblion ag anghenion ychwanegol yn ôl yr angen. Mae'r ysgol yn darparu cymorth unigol da ar faterion cymdeithasol a phersonol i ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae staff yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac yn defnyddio'r wybodaeth o arsylwi a phrofion yn effeithiol i ddarparu cefnogaeth dda i unigolion a chymorth o fewn y dosbarth. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn unol â'u targedau. Mae athrawon yn darparu cynlluniau addysg unigol addas ar gyfer unigolion. Fodd bynnag, nid yw'r targedau unigol bob tro'n ddigon penodol i adnabod y camau i wneud y cynnydd mwyaf effeithiol yn eu dysgu.

Mae perthnasoedd gwaith gwerthfawr yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni sy'n cynnig cyfleoedd priodol iddynt ddatblygu eu gallu i gefnogi eu plant. Er enghraifft, mae'r rhieni wedi cael cyfle i ymgymryd â gweithgareddau gwyddonol yn yr ysgol gyda'u plant. O ganlyniad, mae ganddynt well dealltwriaeth o'r hyn mae'r disgyblion yn ei gyflawni yn ystod y gwersi hyn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau celfyddydau a chreadigol disgyblion yn effeithiol. Mae cyfleoedd llwyddiannus i ddisgyblion arbrofi ag amrywiaeth o gyfryngau wrth astudio gwaith arlunwyr Cymreig enwog. Trwy wersi cerddoriaeth, cyfleoedd i berfformio, a chystadlu yn eisteddfod yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ymwneud â'r celfyddydau creadigol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella

Mae'r pennaeth wedi rhannu gweledigaeth glir a phwrpasol ar gyfer datblygu'r ysgol gyda'r staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni. Mae'r weledigaeth yn seiliedig ar greu ethos bugeiliol, cadarn sy'n hyrwyddo safonau uchel, lles a hapusrwydd disgyblion. Er bod yr ysgol wedi bod trwy gyfnod o ansefydlogrwydd o ran staffio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r staff yn cydweithio'n glos gyda'i gilydd i greu ethos cartrefol, cynhwysol, gan gynnig cyfleoedd dysgu a phrofiadau amrywiol ac ysgogol i ddisgyblion. Mae cymorthyddion ymroddgar yn cynnig cefnogaeth effeithiol sy'n dylanwadu'n sylweddol ar safon gwaith a phrofiadau disgyblion, er enghraifft trwy godi safonau darllen a gweithio yn yr ardal allanol.

Mae'r pennaeth wedi rhoi nifer o strategaethau cadarn ar waith, gan gynnwys ailstrwythuro'r dosbarthiadau. Mae hyn eisoes wedi arwain at sicrhau gwell cysondeb yn y drefn gynllunio ar welliannau yn y ddarpariaeth a safonau yn y cyfnod sylfaen. Mae'n rhy fuan i weld effaith hyn ar safonau gwaith disgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Nid yw cyfrifoldebau'r tîm rheoli wedi eu sefydlu'n ddigon cadarn ac mae hyn yn cyfyngu ar allu'r pennaeth i rannu cyfrifoldebau arweinyddol ac i ddatblygu'r ysgol ymhellach.

Mae'r ysgol wedi sefydlu trefniadau cynhwysfawr ar gyfer hunanarfarnu, sy'n defnyddio ystod o dystiolaeth addas, gan gynnwys dadansoddi data perfformiad disgyblion, craffu ar eu gwaith ac arsylwi ar wersi. Mae arweinwyr yn gwrando ar lais a barn rhieni trwy holiaduron perthnasol. Mae'r adroddiad hunanarfarnu'n ddogfen onest a manwl sy'n nodi'n gryno a chywir gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae hyn yn dangos bod arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda.

Mae blaenoriaethau'r cynllun gwella wedi eu seilio'n uniongyrchol ar ddeilliannau'r gweithdrefnau hunanarfarnu ac yn canolbwyntio'n berthnasol ar godi safonau. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, nid yw'r trefniadau monitro a gwella ansawdd yn cael eu gweithredu'n ddigon trylwyr i fynd i'r afael â'r agweddau sydd angen gwelliant. O ganlyniad, boddhaol yw'r cynnydd yn erbyn blaenoriaethu'r cynllun gwella blaenorol.

Mae gwybodaeth fanwl a dealltwriaeth gadarn y corff llywodraethol yn sicrhau bod ganddynt ran flaenllaw yn ei phrosesau monitro, hunanarfarnu, a chynllunio strategol. Trwy gydweithio'n effeithiol, arsylwi ar wersi a chraffu ar lyfrau, mae ganddynt ymwybyddiaeth gynyddol o safonau'r dysgu ac ansawdd yr addysgu. Maent yn defnyddio'r wybodaeth yn llwyddiannus er mwyn herio'r ysgol ac i ddatblygu eu rôl fel ffrind beirniadol yn dda.

Mae trefniadau rheoli perfformiad priodol yn cyfrannu at welliannau mewn addysgu a dysgu. Nodwedd gadarn o arweinyddiaeth yr ysgol yw'r cyfleoedd gwerthfawr a ddarperir i staff ddatblygu'n broffesiynol. Mae hinsawdd effeithiol o gydweithio cadarnhaol gydag ysgolion eraill i gynnig hyfforddiant a rhannu arfer dda yn cael effaith arwyddocaol ar safonau. Enghraifft o hyn yw cynllunio medrau a datblygu egwyddorion cadarn yn y cyfnod sylfaen.

Mae gwariant wedi ei gysylltu'n briodol â blaenoriaethau'r cynllun gwella a chaiff y cyllid ei fonitro'n ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Mae'r ysgol yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn briodol i godi safonau gwaith y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae buddsoddiad diweddar wedi sicrhau bod amrediad da o adnoddau safonol yn yr ysgol ac mae arweinwyr yn eu rheoli'n bwrpasol i sicrhau mynediad llawn i bob agwedd o'r cwricwlwm. Mae hyn yn amlwg yn y defnydd cyson a wneir o'r ardal allanol yn y cyfnod sylfaen ac o'r offer TGCh newydd sy'n gymorth i godi safonau.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/12/2017